# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 26.10.07

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd J.R.Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr E. Morgan Jones a Tomos Evans

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W.Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu; y Rhingyll Dewi Jones.

**Ymgeisydd** : Mr Brian Mosley; Mrs Sandra Mosley; Mr. Robin Jones, Cyfreithiwr.
.
**Ymddiheuriad:** Derbyniwyd ymddiheuriad gan Einir Wyn, Clerc Cymuned Llanengan

## 1. CAIS AM WYRO TRWYDDED YR ABERSOCH POWER BOAT CLUB

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais Clwb y Power Boat, Abersoch, i newid trwydded bresennol o Dystysgrif Clwb i Drwydded Eiddo fydd yn golygu y bydd hawl i redeg yr eiddo mewn ffordd wahanol. Ar hyn o bryd nid oes angen Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig, ond fe reolir yr eiddo gan bwyllgor er lles yr aelodau. Mae'r cais yn gofyn am gyflenwi alcohol hyd at 00.00awr bob nos, darparu cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio hyd at 23.30 bob nos a hyd at 00.30awr ar Nos Calan, a bod ar agor hyd at 00.30 bob nos a hyd at 01.30awr ar nos Calan.

Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu i dderbyn ymateb gan yr Heddlu a hefyd y Gwasanaeth Tân yn argymell amodau, llythyrau gan yr aelod lleol ac ar ran Cygor Cymuned Llanengan, y ddau yn cefnogi'r cais ond yn awgrymu amodau, a nifer o lythyrau gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais ar sail cerddoriaeth uchel, swn wrth i gwsmeriaid adael y clwb, ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn hwyr y nos ac oriau mân y bore.
Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
ii. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iii. gwahoddwyd yr Heddlu i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ac aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau;
iv. gwahoddwyd yr Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
v. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac i alw ar unrhyw dystion;
vi. gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
vii. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd; a
viii. derbyniwyd crynodeb o'r achos gan gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd.

Adroddodd cyfreithiwr yr ymgeisydd ar newidiadau o fewn manylion y cais, sef bod oriau agor y safle ar y Sul wedi newid i 11.00 hyd at 00.00, ac oriau cyflenwi alcohol ar y Sul wedi newid i 11.00 hyd at 23.30; bod manylion darparu cerddoriaeth a dawnsio (sef adrannau E,F a J yn y cais) i'w cyfyngu i 12 achlysur mewn blwyddyn yn unig, a bod y cais i gyflenwi alcohol (adran M yn y cais) i'w gyfyngu i tu mewn i'r adeilad yn unig yn hytrach na tu mewn a'r tu allan fel a nodwyd.

Wrth gyflwyno sylwadau ar ran yr Heddlu, adroddodd Cydlynydd Trwyddedu yr Heddlu ar y rheswm dros gyfeirio'r cais i sylw'r Pwyllgor, sef bod yr heddlu wedi eu galw i'r safle oherwydd trafferthion ar sawl achlysur yn y gorffennol ond heb weld gwelliant yn y sefyllfa o gwbl. Cyfeiriodd at achlysur diweddar pan fu i gerbyd gael ei ddwyn o faes parcio'r 'Land and Sea' gan gwsmer o'r Power Boat Club, gyda thystiolaeth ar gamerau cylch-cyfyng a chan gwsmeriaid y Clwb, ond nid oedd tystiolaeth ar gael i'r heddlu o'r rhai oedd yn bresennol yn y Clwb ar y pryd.

Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai oedd yn bresennol gyflwyno sylwadau i gefnogi'r rhesymau a nodwyd ganddynt mewn llythyr, a chafwyd tystiolaeth gan y canlynol:

Y Cynghorydd R.H.Wyn Williams, yr Aelod lleol dros Abersoch
Y Cynghorydd Yvonne Lloyd-Jones, fel aelod lleol y Cyngor Cymuned
Mrs E. Hiorns-Morgan
Mrs Iola Thomas

gan fynegi pryder ar sail y canlynol:

- swn eithafol a dim rheolaeth pan mae cwsmeriaid yn gadael y Clwb
- ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan gwsmeriaid megis:
  - lluchio sbwriel i erddi cyfagos;
  - swn tacsis yn codi cwsmeriaid tu allan i'r Clwb;
  - cario gwydrau a chaniau allan o'r Clwb a'u lluchio ar y ffordd ac i'r gwrychoedd;
  - parcio ceir ar safleoedd preifat
  - gweiddi hyd at 2 neu 3 y bore tra mae cwsmeriaid yn disgwyl am dacsis
  - swn bas y gerddoriaeth yn cario i dy trigolion sy'n byw hyd at ganllath i ffwrdd
  - cwffio a rhegi wrth adael y Clwb
- tystiolaeth o gwsmeriaid busnes gwely a brecwast yn cwtogi ar eu gwyliau oherwydd yr aflonyddwch
- y cyfan yn rhoi enw drwg i Abersoch fel man gwyliau

Cafwyd cyngor gan yr Uwch Swyddog Cyfreithiol na ellir ystyried sylwadau a fynegwyd mewn dau lythyr gan berchenogion ty a fflat ger lleoliad y Clwb am y rheswm nad oedd tystiolaeth bod yr awduron yn byw yno.

Wrth gyflwyno sylwadau, nododd yr ymgeisydd:

- ei bod yn fwriad ganddo i newid natur y Clwb yn llwyr o hyn allan, gyda chynlluniau i'w redeg fel Bistro, a bod y lle i fod ar gau o Tachwedd 5ed am bum mis heblaw am achlusuron arbennig i ddathlu priodas neu benblwydd aelodau a Nos Calan
- nad yw'n fwriad i ddenu cwsmeriaid ifanc o hyn allan ac ni fydd nosweithiau o gerddoriaeth sy'n apelio'n arbennig at yr ifanc yn cael eu trefnu fel yn y gorffennol.
- bod cwsmeriaid o safleoedd eraill yn cyfrannu at y swn tu allan i'r 'Land and Sea' wrth aros am dacsis
- bod aelodaeth bresennol y Clwb yn dod i ben ar Fawrth 1af, ac mae'n fwriad i greu aelodaeth newydd o hynny ymlaen
- ei fod yn fodlon derbyn adolygiad o'r sŵn gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
- na fu problem hyd yma ynghylch cario diod oddi ar y llawr dec tu allan i'r adeilad
- ei fod yn cytuno i hysbysu'r cyhoedd o ddigwyddiadau arbennig am 14 diwrnod ymlaen llaw
- y diddymir y drwydded bresennol pe caniateir y cais

Trafodwyd y cais yng ngolau'r holl sylwadau a gyflwynwyd gan dalu sylw i egwyddorion y Ddeddf Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD wedi ystyried yn ofalus cais am Drwydded Eiddo o safbwynt y pedair egwyddor Deddf Trwyddedu 2003 sef:**

**1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**

**2. Diogelwch y Cyhoedd;**
**3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
**4. Amddiffyn plant rhag niwed:**

**caniatau'r cais am Drwydded i'r Power Boat Club, Abersoch dan yr amodau canlynol:**

- **a) hawl i'r adeilad i fod ar agor o 11.00 hyd at 00.30 o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn; o 11.00 hyd at 00.00awr ar Ddydd Sul; ac o 11.00 hyd at 01.30 ar Nos Calan.**
- **b) hawl i gyflenwi alcohol o 11.00 hyd at 00.00awr o Dydd Llun hyd at Ddydd Sadwrn; o 11.00 hyd at 23.30 ar Dydd Sul; o 11.00 hyd at 01.00 ar Nos Calan.**
- **c) dim yfed alcohol tu allan i'r adeilad ar ôl 21.30**
- **d) hawl i gynnig darpariaeth ar gyfer chwarae cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a cherddoriaeth ar gyfer dawnsio ar ddeuddeg achlysur yn unig mewn blwyddyn, gan gynnwys Nos Calan, yn ystod yr un oriau a nodir yn b) uchod.**
- **e) bod gwybodaeth am bob achlysur yn d) uchod i'w hysbysu i'r Heddlu o leiaf 14 diwrnod cyn y digwyddiad**
- **f) dau oruchwyliwr drws trwyddedig i fod ar ddyletswydd yn ystod y deuddeg achlysur a nodir yn d) uchod**
- **g) amodau 2,3 a 5 fel a nodir gan yr Heddlu**
- **h) amodau fel a nodir gan y Gwasanaeth Tân**
- **i) diddymu'r Dystysgrif Clwb bresennol**

Wrth ddiolch i'r aelodau am eu hystyriaeth, adroddodd cyfreithiwr yr ymgeisydd bod achlysur wedi ei drefnu ar y safle ar y noson ganlynol, sef Hydref 27, a gofynnwyd am ganiatad i'w gynnal dan yr hen drwydded. Cytunodd aelodau'r Is-bwyllgor i hyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30pm a daeth i ben am 4.15pm.